Llythyr agored i ddarpar ddarparwyr Gweithgareddau Cyswllt

Deddf Plant a Mabwysiadu 2006

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu yn gryf, pan fydd rhieni'n gwahanu, y dylai'r ddau riant barhau i gael perthynas ystyrlon â'u plant, cyn belled â bod hynny'n ddiogel ac er budd y plentyn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn gallu gwneud eu trefniadau eu hunain o ran gofalu am eu plant a chyswllt â nhw. Fodd bynnag, yn aml bydd y rheiny sy'n ceisio cael datrysiad trwy'r llys yn canfod bod y system yn wrthwynebus neu'n araf, a hefyd bydd llawer yn anhapus â'r trefniadau ac amodau cyswllt bydd y llys yn eu gorchymyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r uwch farnwriaeth wedi cydnabod y pryderon hyn ac rydym yn cydweithio i sicrhau mai'r datrysiadau a gyrhaeddir yw'r rheiny sydd orau o ran hybu lles y plant dan sylw.

Nod y ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau cyswllt yn Neddf Plant a Mabwysiadu 2006 yw helpu rhieni sy'n gwahanu i wneud trefniadau sydd er budd y plentyn. Bwriad y darpariaethau newydd yw darparu gwell mynediad at wybodaeth a chyngor ar adeg y gwahanu i helpu rhieni i ddod i gytundeb yn fwy effeithiol.

Ar gyfer y rhieni hynny sy'n gofyn i'r llys benderfynu ar drefniadau cyswllt ar gyfer eu plant, bydd grymoedd newydd yn darparu gwasanaethau mwy hyblyg i rieni sy'n gwahanu, i leihau'r effeithiau niweidiol ar bawb sy'n gysylltiedig, a phlant yn enwedig, oherwydd bellach cydnabyddir bod plant yn gallu dioddef niwed sylweddol trwy wrthdaro hir neu chwerw iawn rhwng rhieni.

Daw Cyfnod 2 o Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 i rym ar 28ain Tachwedd 2008. Bydd yn galluogi llysoedd i orchymyn partïon i ymgymryd â

"rhaglenni, dosbarthiadau a sesiynau cyfarwyddyd neu gynghori o fath a allai gynorthwyo unigolyn mewn perthynas â sefydlu, cynnal neu wella cyswllt â phlentyn" neu

"sesiynau lle bydd gwybodaeth neu gyngor yn cael ei roi mewn perthynas â gwneud neu weithredu trefniadau ar gyfer cyswllt â phlentyn, gan gynnwys gwneud trefniadau trwy gyfryngu".

Mae CAFCASS CYMRU (y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd yng Nghymru) yn gyfrifol am gynghori llysoedd am y gwasanaethau y gellir eu defnyddio i ddiwallu'r gofynion newydd hyn o ran gweithgareddau cyswllt. Rydym yn ceisio datganiadau o ddiddordeb gan gyrff neu unigolion a allai fod â diddordeb mewn cynnig tendr ar gyfer darparu rhaglenni addas.

Hoffwn dynnu eich sylw at hysbyseb cyfredol CAFCASS CYMRU ar wefan GwerthwchiGymru sy'n gwahodd datganiadau o ddiddordeb yn darparu gwasanaethau

gweithgareddau cyswllt. Rydym yn bwriadu cynnal cyfarfod agored rhwng partïon sydd â diddordeb ym mis Awst cyn i'r broses dendro ffurfiol gychwyn, a byddem yn falch o wybod a fyddech yn dymuno mynychu.

Anfonwch unrhyw ymholiadau i Paul Critchley, Rheolwr Contractau, CAFCASS CYMRU, ar 02920 647920.

E. Rhian Davies.
Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Dysgu a Datblygu.